CANA I MI NAWR

Golau ar derfyn y dydd
Yn arllwys yn aur
Dros wyneb y byd
Y pinwydd yn sefyll yn rhes
Yn barchus gytûn
Yn dystion mud

Doedd dim taranau na mellt
Dim arwyddion clir
Na chymylau du
Tawel fu'r gadael i ti
Diffoddwyd y fflam
Fu'n gannwyll i mi

Cana 'mi nawr
Cana 'mi nawr
Can am bethau a fu
Can am y tir
A'r dyfroedd pur
Sy'n disgwyl amdana' i

Ti oedd y dechrau i mi
I gredu fod modd
O wneud unrhyw beth
Ti rhodd i mi bob un gred
Fod ffordd gwneud bob dim
Fod ateb i'w gael

Cytgan

Tawel yw'r meysydd
A distaw yw'r ddol
Diflannodd yr amser
Ac ni ddaw yn ôl
Ond un peth a erys
Tra bydda i'n bod
Yw'r cof am y cyfan (y cyfan, y cyfan)

Cytgan

© Geraint Griffiths 2006